

## Llenwadau\* Gwynion



### Beth ydyn nhw?

Mae llenwad yn cymryd lle rhan o ddant sydd wedi'i golli oherwydd pydredd\* neu drwy ddifrod\* damweiniol.

Efallai y clywch chi'r deintydd yn sôn am 'gyfansawdd' neu 'ionomer gwydrog' a 'compomer' – gwahanol fathau o llenwadau gwynion ydi'r rhain.

### Beth fydd fy neintydd yn ei wneud?

Bydd eich deintydd yn gwneud y canlynol:

- fel arfer yn rhoi pigiad i chi er mwyn gwneud o gwmpas y dant yn ddideimlad – ond efallai na fydd angen gwneud hynny gyda llenwadau bychain.
- tynnu ymaith unrhyw bydredd, yn ogystal â deunydd unrhyw hen lenwad, gan ddefnyddio dril cyflymder-uchel bychan.
- tynnu ymaith unrhyw ran o'r dant sy'n wan ac a allai dorri ymhellach ymlaen.
- golchi a sychu'r dant drwy chwythu dŵr ac yna aer i mewn iddo (bydd y deintydd yn gafael mewn teclyn sy'n edrych rywbeth yn debyg i wn dŵr).
- ysgythu'r arwyneb sydd i'w adfer gydag asid mwyn, er mwyn i'r llenwad lynu'n well.
- arhaenu\*'r arwyneb sydd i'w adfer gydag asiant asio\* (sy'n gweithdrefu fel sment) ac yna gosod y deunydd llenwi – gwthir hwn i'r ceudwll\* sydd i'w llenwi a chaiff ei siapio a'i llenwi fel y bo'r gofyn.
- caledu'r llenwad drwy anelu golau llachar ato, y tu mewn i'ch ceg (byddwch yn gweld y deintydd a'r nyrs ddeintyddol yn amddiffyn eu llygaid) – 'caledu' ydi'r enw ar hyn.
- trimio a llathru\*'r llenwad fel y bo'r angen.

### Beth ydi'r manteision?

- Yn wahanol i llenwadau arian (amalgam), mae deunydd llenwad gwyn yn glynu i'r dannedd ac fe all ffurfio ymylon, fel bod modd ei ddefnyddio'n effeithiol i drwsio dannedd blaen sydd wedi sglodio\*, torri, pydru\* neu wedi treulio. Fe ellir hefyd ei ddefnyddio fel 'argaen'\* i guddio marciau neu aflwiad\* na ellir cael gwarded â hwy drwy lanhau.
- Mae llenwadau gwynion yn llai amlwg na llenwadau arian, a all droi'n ddu yn y geg. Ceir amrediad o arlliwiau mewn llenwadau gwynion fel y gellir eu cydweddu\* â lliw eich ddannedd chi eich hun.
- Nid oes angen cymaint o waith darparu ar ddant ar gyfer llenwad gwyn ag ar gyfer llenwad arian.
- Gellir defnyddio llenwadau gwynion weithiau yn y dannedd cefn os nad oes gormod o bydredd neu ddifrod, ond gallant fod yn fyrrach eu parhad na llenwadau arian o ganlyniad i draul a difrod\* drwy gnoi. Mae llenwadau gwynion hefyd yn anoddach i'w gosod mewn dannedd cefn, gan fod rhaid cael amgylchiadau sych iawn, cyflwr a all fod anodd i'w gael yng nghefn eich ceg.

**GEIRFA:** aflwiad = *discolouration*; argaen = *veneer*; arhaenu = *to coat*; arlliw(iau) = *shade(s)*; asiant asio = *bonding agent*; ceudwll = *cavity*; cydweddu = *to match*; cyfansawdd = *composite*; difrod = *damage*; llathru = *to polish*; llenwad(au) = *filling(s)*; pydredd = *decay*; pydru = *to decay*; sglodio = *to chip*; traul a difrod = *wear and tear*